# Deddf Addysg (Cymru) 2014

**2014 dccc 5**

## RHAN 2

Y GWEITHLU ADDYSG

*Cod ymddygiad ac ymarfer ar gyfer personau cofrestredig*

### 24 Cod ymddygiad ac ymarfer

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi cod sy'n pennu'r safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol a ddisgwylir gan bersonau cofrestredig.

(2) Caiff y cod ddarparu ar gyfer safonau gwahanol ar gyfer categorïau gwahanol o berson cofrestredig.

(3) Wrth lunio'r cod, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r personau a'r cyrff hynny sy'n debygol o fod â buddiant yn y cod yn eu barn hwy.

(4) Rhaid i'r Cyngor adolygu'r cod a gwneud unrhyw ddiwygiadau iddo sy'n briodol yn ei farn ef—

(a) cyn pen 3 blynedd ar ôl pob dyddiad cyhoeddi (o dan is-adran (1) neu (5)), a

(b) pan fydd categori cofrestru newydd yn cael ei ychwanegu.

(5) Ar ôl pob adolygiad o dan is-adran (4), rhaid i'r Cyngor gyhoeddi'r cod mewn dull sydd, ym marn y Cyngor, yn debygol o'i ddwyn i sylw'r personau cofrestredig ac unrhyw un arall a all fod â buddiant yn y cod yn ei farn ef.

(6) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (4), rhaid i'r Cyngor ymgynghori â'r personau a'r cyrff hynny sy'n debygol o fod â buddiant yn y cod yn ei farn ef.

### 25 Cod ymddygiad ac ymarfer: darpariaeth bellach

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth ynghylch y cod a ddisgrifir yn adran 24 ac mewn cysylltiad â'r cod hwnnw.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally enacted).*

(2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon, yn benodol, wneud darpariaeth ynghylch—

(a) ffurf a chynnwys y cod, a

(b) canlyniadau unrhyw fethiant gan berson cofrestredig i gydymffurfio â’r cod, a gaiff gynnwys trafodion disgyblu o dan adran 26.